

COFNODION BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR A GYNHALIWYD AR 12 RHAGFYR 2019

CANOLFAN DYSGU WESTON, SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Rhif Age nda	Nodiadau	Camau Gweithr edu
	<p>YN BRESENNOL: Roger Lewis (yn y Gadair); Hywel John (Trysorydd); Carys Howell; Catherine Duigan; Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Jessica Seaton; Madeleine Havard; Michael Prior; Rob Humphreys; Robert Pickard; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu; Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>ERAILL YN Y CYFARFOD: Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Datblygu; Catrin Taylor, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, Gwendolyn Williams, Cadeirydd y Cyfeillion, a Paul Twamley, Cadeirydd y Bwrdd Datblygu.</p>	
	<p>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</p> <ul style="list-style-type: none"> Eitem 4.1.2 yr Agenda Glenda Jones mewn perthynas â'i contract gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. 	
	<p>Yn Sesiwn Gaeëdig y cyfarfod trafododd y Bwrdd: Amgueddfa Cymru 2030; Yr Oriol Genedlaethol Gelf Gyfoes; Amgueddfa Chwaraeon; Salem; adolygiad o Gasgliad y Werin Cymru; Amgueddfa Lechi Cymru; newyddion diweddaraf gan y Llywydd.</p> <p>Ar y pwynt hwn, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.</p>	
1	<p>GAIR O GROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>Croesawodd Roger Lewis pawb i'r cyfarfod, gan roi croeso i Daniel Maney, cynrychiolydd undeb Prospect, a Sian Wiblin, cynrychiolydd undeb PRC, fel Arsylwyr. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carol Bell (Is-lywydd), Gwyneth Hayward, Kay Andrews, Maria Battle, Rachel Hughes a Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad Ymwelwyr.</p>	
2	<p>COFNODION</p> <p><u>Penderfynwyd:</u> Cafodd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2019 eu cymeradwyo.</p>	
3	<p>MATERION YN CODI</p> <p>4.1.1.3 Pennaeth Ymchwil Nid oedd yr Amgueddfa wedi penodi Pennaeth Ymchwil ac fe fyddai'n recriwtio Rheolwr Ymchwil. Bydd y mater hwn yn cael ei ddwyn ymlaen yn 2020 gan Kath Davies, y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil newydd.</p> <p>4.2.2.5 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Roedd yr Amgueddfa wedi cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai Heledd Morgan, y Comisiynydd, fynychu sesiwn drafod y Bwrdd, ac mae'r syniad o fwrdd ymddiriedolwyr o bob sefydliad yn cyfarfod wedi'i drafod â chyrrff cenedlaethol eraill. Bydd cynrychiolwyr o bob sefydliad yn trafod hyn yng nghyfarfod nesaf y Cyrff Cenedlaethol.</p> <p>6.4 Adolygiad Thurley Yn ystod cyfarfod Chwarterol yr Amgueddfa, roedd Is-adran Amgueddfeydd, Celfyddydau, Archifau a Llyfrgelloedd (MAALD) yn gytûn â'r Amgueddfa ynghylch ei gweithgarwch adrodd.</p>	

4	<p>ADOLYGU GWEITHGARWCH</p> <p>1. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd mewn perthynas â Chynllun Gweithredol 2019/20. Roedd yr Amgueddfa yn ymchwilio i'r posibilrwydd o greu arddangosfa deithiol i Japan, ac roedd y Bwrdd yn hapus i nodi fod cefnogaeth gadarnhaol i'r Amgueddfa yno. Nododd y bwrdd y cyfarfod llwyddiannus â'r Prif Weinidog, a bod cyfarfod arall yn cael ei drefnu. Bydd yr Amgueddfa yn gweithio â Llywodraeth Cymru i sefydlu is-grŵp i fwrw ymlaen â chanlyniadau digwyddiad Ymchwil 24 Hydref 2019, a gynhaliwyd gan y Dirprwy Weinidog. Byddai'r Amgueddfa yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid fel Platfform yr Amgylchedd Cymru i ganfod ffyrdd o fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd. Byddai'r Amgueddfa'n cydweithio ag Eluned Morgan a'i swyddfa, mewn perthynas â Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, ac wrth ddatblygu gweithgareddau Ewropeaidd a rhyngwladol yma a thramor. Nododd y Bwrdd waith ymgysylltu'r Amgueddfa â Chymdeithas Pêl-droed Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.</p> <p>2. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNLLUN GWEITHREDOL CHWARTER 2</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Mewn perthynas â tharged incwm Casgliadau ac Ymchwil, byddai hyn yn cael ei ddiwygio i fod yn is.</p> <p>2.3. Roedd y Bwrdd yn arbennig o falch o nodi llwyddiant 'Diwrnod Menywod ym maes STEM', a oedd yn cynnwys ymgysylltu ag Ymddiriedolwyr.</p> <p>2.4. <u>Penderfynwyd</u>: Cymeradwywyd yr adroddiad. Bydd Ymddiriedolwyr yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad yn y dyfodol.</p> <p>3. DANGOSFWRDD</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Roedd yr adroddiad misol yn dangos cynnydd ar draws amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth allweddol. Fe wnaeth y Bwrdd groesawu'r adroddiad, gan nodi'r ffordd y byddai hyn yn galluogi'r sefydliad i ddatllu llwyddiannau a chyflawniadau a monitro'r heriau a amlygwyd. Cafodd yr adroddiad ei rannu â MAALD.</p>	EC
5	<p>ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYLLID</p> <p>1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>2. <u>Adroddwyd</u>: Cafwyd perfformiad da hyd yma, gyda gwaith rheoli ariannol cadarn ar draws pob maes. Fe wnaeth y Bwrdd ystyried targedau incwm.</p> <p>3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd yr adroddiad.</p>	
6	<p>MATERION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL</p> <p>1. LLESIANT, IECHYD A DIOGELWCH</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Bennaeth Adnoddau Dynol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Roedd yr adroddiad hwn mewn fformat newydd, ac roedd yn cynnwys llesiant. Nododd y Bwrdd gyfraddau ymateb i arolwg Mynegai Llesiant Mind, a bod aelodau staff wedi cael hyfforddiant mewn cymorth cyntaf ym maes iechyd meddwl. Nododd y Bwrdd bod digwyddiadau</p>	

	<p>RIDDOR y gellir eu hadrodd yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Adolygu Perfformiad.</p> <p>1.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd yr adroddiad.</p> <p>2. ADRODDIAD BLYNYDDOL PERCHNOGION BIG PIT AMGUEDDFA LOFAOL CYMRU</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Bennaeth Big Pit a Rheolwr y Pwll.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Cafodd aelodau'r Bwrdd eu hatgoffa o'u statws fel perchnogion a gweithredwyr y pwll. Cadarnhaodd Dai Price, Pennaeth yr Amgueddfa, ei fod yn 'unigolyn cyfrifol' a bod yna drefniadau newydd ar gyfer asesu risgiau. Roedd aelodau'r cyhoedd yn unfrydig yn eu cefnogaeth i'r angen i ailbeintio'r offer weindio. Cafodd y gefnogaeth hon groeso brwd gan y Bwrdd wrth i'r Amgueddfa geisio cyfleu negeseuon cadarnhaol ynghylch pwysigrwydd ei rhaglen cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw.</p> <p>2.3. Ar fater ar wahân, nododd y Bwrdd fod Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru wedi ailagor i'r cyhoedd ar 24 Hydref 2019. Byddai yna ddigwyddiad swyddogol ar 16 Ionawr 2020 gyda rhanddeiliaid gwleidyddol allweddol yn bresennol.</p> <p>2.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo.</p> <p>3. ADRODDIAD A CHYNLLUN GWEITHREDU DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Geidwad Adran y Gwyddorau Naturiol.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Roedd yr adroddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Amgueddfa mewn perthynas â'r Ddeddf, ac yn cynnwys trosolwg o'r camau strategol gofynnol.</p> <p>3.3. Nododd y Bwrdd y gwaith mewn perthynas â bioamrywiaeth, ac yn benodol nododd y Ddôl Drefol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Ystyriodd y Bwrdd ganfyddiadau'r cyhoedd o ran 'nodweddion cefn gwlad' ('bod taclus yn gyfystyr â boddhaol'), a'r cyfleoedd dysgu y gellid eu hymchwilio mewn perthynas â hyn. Ystyriodd y Bwrdd y ffordd y gallai gyfrannu at y sgwrs ryngwladol ar newid yn yr hinsawdd ac amrywiaeth: 'Hinsawdd 2020'.</p> <p>3.4. Diolchodd y Bwrdd i Richard Bevins, Ceidwad Adran y Gwyddorau Naturiol am ei adroddiad, gan ei longyfarch ar ei gyfraniad ardderchog i waith yr Amgueddfa yn ystod ei yrfa. Dymunodd y Bwrdd ymddeoliad hir a hapus iddo.</p> <p>3.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo. Dylid gosod arwydd amlycach ar safle'r Ddôl Drefol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gan dynnu sylw'r cyhoedd i'w statws a rôl pobl ifanc yn ei greu. Gallai'r adroddiad nesaf gynnwys adrodd ar gyllidebau carbon fel rhan o 'Gynllun Cymru ar gyfer Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd'. Bydd Chris Cleal, Pennaeth Botaneg, yn darparu'r adroddiad diweddar nesaf i'r Bwrdd ym mis Mawrth, gan nodi'r ffordd y bydd yr Amgueddfa yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn fel rhan o'r strategaeth deng mlynedd sy'n datblygu.</p> <p>4. CYNLLUN Y GYMRAEG</p> <p>4.1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu fod un gŵyn wedi'i hadrodd i'r Comisiynydd. Roedd yr Amgueddfa wedi ymateb i gais y Comisiynydd am wybodaeth.</p>	<p>SM</p> <p>CC</p> <p>CC</p>
--	--	-------------------------------

	<p>5. GDPR</p> <p>5.1. <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol bod achosion o dorri data wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; mae'r cyfan yn achosion categori isel ac nid oes angen eu hadrodd i'r Comisiynydd. Yn ychwanegol, nododd y Bwrdd gynnydd gydag asesiad Cyber Essentials, wedi'i amserlennu ar gyfer mis Mawrth / Ebrill 2020.</p> <p>6. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH</p> <p>6.1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol y ffordd yr oedd yr adroddiad hwn yn gysylltiedig â'r adroddiad Llesiant, lechyd a Diogelwch uchod. Mae'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn grŵp mewnol a rhoddir hyfforddiant i aelodau staff mewn sawl maes, yn cynnwys ar ragfarn ddiarwybod, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, addasiadau rhesymol, y menopos, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, ymwybyddiaeth ofalgar a chadernid. Mae'r Amgueddfa'n arwain mewn rhai o'r meysydd hyn yng Nghymru.</p> <p>6.2. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod adroddiad Adnoddau Dynol i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad yn cynnwys y gwaith adrodd hwn.</p> <p>7. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL</p> <p>7.1. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu wedi adrodd bod yr Amgueddfa wedi llunio dogfen ddrafft o amcanion cydraddoldeb gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Daeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 I ben ar 19 Tachwedd 2019. Y nod yw cael cyrrff cyhoeddus yng Nghymru i greu un gyfres o amcanion.</p> <p>7.2. Nododd y Bwrdd fod dymuniad i greu bioamrywiaeth yn y gweithle yn cyd-fynd â'r dymuniad i gael mwy o amrywiaeth ar y Bwrdd. Nododd y Bwrdd hefyd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod y ffaith bod yr Amgueddfa yn arwain y ffordd yng Nghymru yn ei ymateb i'r Ddeddf.</p>	CT-H
7	<p>1. GWYBODAETH DDIWEDDARAF AM DDIWRNOD DATBLYGU STAFF</p> <p>1.1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus sut roedd y digwyddiad yn dangos buddsoddiad yr Amgueddfa mewn aelodau staff ar draws yr holl safleoedd. Roedd aelodau staff yn arwain ar y broses o ddatblygu'r digwyddiad, a oedd yn cynnwys gweithgareddau cyhoeddus y gallai staff roi cynnig arnynt. Roedd ymdeimlad cryf y dylai'r digwyddiad, yn amodol ar adnoddau o ran gallu ac arian, fod yn ddigwyddiad blynyddol, gydag elfennau ffurfiol ac anffurfiol. Diolchwyd i'r Llywydd am ei gymorth. Diolchwyd i'r Undebau am eu presenoldeb yn y farchnad.</p> <p>1.2. Nododd y Bwrdd ei bod yn bosibl dwyn pawb ynghyd dim ond oherwydd y gofod sydd wedi cael ei greu drwy ailddatblygu Sain Ffagan. Byddai'r Amgueddfa yn ystyried lleoliadau eraill nad ydynt yn yr amgueddfa er mwyn meincnodi costau. Diolchwyd yn arbennig i'r tîm sy'n cydgysylltu'r digwyddiad, ac yn benodol i Swyddog Cyfathrebu Mewnol a Materion Cyhoeddus yr Amgueddfa a fu'n arwain gwaith datblygu'r diwrnod.</p> <p>1.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a byddai'r adroddiad gwerthuso yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn 2020.</p>	HF
8	<p>1. ADRODDIAD CHWE MIS AR GYFER CASGLIADAU A GWEITHGAREDDAU YMCHWIL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p>	

	<p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y fformat adrodd newydd sy'n cael ei adlewyrchu yng ngweledigaeth yr Amgueddfa. Adroddodd Ceidwad Adran y Gwyddorau Naturiol y byddai hyn yn cael ei ddiwygio ymhellach gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil newydd.</p> <p>1.3. Nododd y Bwrdd y cysylltiad rhwng y caffaeliadau celf gyfoes, Artes Mundi, a thrafodaethau cyfredol ar arddangos celf gyfoes yng Nghymru. Nododd y Bwrdd natur heriol cynnwys y caffaeliadau celf diweddar, ac roedd y rhain yn adlewyrchu dull blaengar yr Amgueddfa yn hyn o beth.</p> <p>1.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i nodi.</p>	
9	<p>STRATEGAETH, POLISI A CHYNLLUNIO</p> <p>1. STRATEGAETH INTERIM CYFATHREBU, MARCHNATA AC EIRIOLAETH</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu a'r Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu a'r Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus strategaeth interim er mwyn paratoi'r sefydliad ar gyfer <i>Amgueddfa Cymru 2030</i>.</p> <p>1.3. Nododd y Bwrdd raddau'r data demograffig a gasglwyd drwy gynnal arolwg o broffil ymwelwyr a'r bylchau yn y data hwnnw. Nododd y Bwrdd y rhaglen i gyfathrebu'n well manau arddangos casgliadau'r Amgueddfa, a'r gweithgareddau a gynhelir ar safleoedd yr amgueddfa. Nododd y Bwrdd hefyd rôl gwaith ymgysylltu cymunedol yr Amgueddfa, y potensial i weithio gyda naw cant o gymunedau ledled Cymru, a'r ffyrdd y gwnaeth yr amgueddfa ymateb i'r rhaglen Cyfuno, sy'n trechu tlodi trwy ddiwylliant.</p> <p>1.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo, ac y bydd yn ymddangos fel eitem barhaol ar yr agenda yn y dyfodol.</p> <p>2. ASTUDIAETHAU DICHONOLDEB – AMGUEDDFA CHWARAEON CYMRU; ORIEL GENEDLAETHOL GELF GYFOES</p> <p>2.1. <u>Adroddwyd</u>: Derbyniwyd y datganiad canlynol drwy e-bost gan Lesley-Anne Kerr, Pennaeth Datblygu Amgueddfeydd a chafodd ei nodi gan y Bwrdd:</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i Amgueddfa Cymru am gymryd rhan yn y trafodaethau i fwrw ymlaen ag argymhellion y ddwy astudiaeth. Yn seiliedig ar y rhain, mae cyngor wedi'i anfon at y Dirprwy Weinidog yn amlinellu'r camau nesaf. Mae hyn yn cynnig dyraniad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau busnes, a chynnwys elfen o gyllid i gefnogi Amgueddfa Cymru i wella'r gwaith o ddigideiddio a storio ei chasgliad celf gyfoes. Bydd hyn yn sicrhau y gall sefydliadau gael mynediad at y casgliadau yn y rhwydwaith gwasgareddig o orielau ac yn fwy cyffredinol. Bydd Amgueddfa Cymru yn cael ei hysbysu o'r canlyniad y dilyn y Gyllideb a gynhelir ar 16 Rhagfyr. Bydd swyddogion Amgueddfa Cymru, Amgueddfa Wreccsam a MAALD yn cyfarfod ddiwedd mis Ionawr i gytuno ar y ffordd orau o fwrw ymlaen â chynigion am amgueddfa bêl-droed.</p> <p>3. CYNLLUN AELODAETH</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Rhoddodd y Cyfarwyddwr Datblygu yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd, gan nodi y byddai manylion cynlluniau ar gyfer aelodaeth unigol a Noddwyr yn cael eu hanfon at yr holl Ymddiriedolwyr. Anogodd y Llywydd yr holl Ymddiriedolwyr i hyrwyddo'r</p>	CT / HF

	cynlluniau amrywiol. Anogodd Cadeirydd y Bwrdd Datblygu yr Ymddiriedolwyr hefyd i ystyried ymuno eu hunain a mynychu a chefnogi digwyddiadau codi arian, megis y digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi.	
10	<p>1. PROSIECTAU SYLWEDDOL</p> <p>1.1. RHAGLEN GWAITH CYNNAL A CHADW HANFODOL</p> <p>1.2. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Adeiladau, Rheolwr y Rhaglenni Cyfalaf a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>1.3. <u>Adroddwyd</u>: Roedd y gwaith a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn mynd rhagddo o fewn y gyllideb. Roedd tywydd garw wedi arwain at bythefnos o oedi.</p> <p>1.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd yn ystyried y rhaglen gwaith cynnal a chadw cyfalaf mwy sylweddol yn y Sesiwn Gaeëdig ym mis Mawrth 2020, ac yn pwysu a mesur ffyrdd o gofnodi'r drafodaeth hon ac adrodd yn y Sesiwn Agored.</p>	JL
11	<p>Atodiad 1</p> <p>Cofnodion Pwyllgorau a Grwpiau amrywiol.</p> <p>Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn Nododd y Bwrdd y bydd Robert Pickard yn ymddiswyddo fel aelod o'r Bwrdd.</p> <p>Bwrdd Datblygu Mae Gwyneth Hayward wedi cael ei phenodi i'r Bwrdd Datblygu. Roedd dau le gwag ar gyfer Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa.</p> <p>AGGA Cyf. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo penodiad Hywel John i Fwrdd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA) Cyf. yn ôl-weithredol.</p> <p><u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod penodiad Hywel John i Fwrdd AGGA Cyf. yn cael ei gymeradwyo. Bod yr Ymddiriedolwyr yn ystyried ymuno â'r Bwrdd Datblygu.</p>	Ymddiri edolwyr EC
	<p>UFA</p> <p>Mudiad Ymddiriedolwyr Ifanc Roedd yr Amgueddfa'n ystyried gwaith y mudiad hwn a sefydliadau eraill, fel rhan o'i hadolygiad cyffredinol o lywodraethu corfforaethol. Byddai swyddog dan hyfforddiant o raglen Arweinyddiaeth Clore yn treulio deuddeg wythnos ar secondiad yn swyddfa Polisi a Materion Cyhoeddus yr Amgueddfa. Bydd yn cefnogi gwaith yr Amgueddfa ac yn rhannu arferion gorau o'i brofiad ei hun, ar yr adolygiad hwn o lywodraethu. Nododd yr ymddiriedolwyr enghreifftiau eraill o arferion gorau yng Nghymru a'r Alban.</p> <p>Cynrychiolaeth yr Undebau Diolchodd y Llywydd i'r Undebau am fynychu'r cyfarfod fel arsylwyr. Bydd Glenda Jones, cyswllt cynrychioladol y Bwrdd â'r Undeb yn trosglwyddo'r materion a godir gyda'r Cyfarwyddwr Addysgu ac Ymgysylltu.</p> <p>Ymdeoliad Jessica Seaton (Ymddiriedolwr) Diolchodd y Llywydd i Jessica am ei gwaith ar y bwrdd, ac yn ei rôl fel Cyfarwyddwr ar Fwrdd Mentrau AOCC Cyf. Roedd y Bwrdd yn dymuno'n dda iddi a diolchodd Jessica i'r Amgueddfa a'r Bwrdd am y cyfleoedd a'r profiadau a gafodd yn y rôl.</p>	
	<p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</p> <p><u>Penderfynwyd</u>: Bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9:00am ar 12 Mawrth 2020 yn Tŷ Pawb, Wrecsam.</p>	